

CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 19eg Rhagfyr 2018 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Cyngor.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr B. Blakeley, Mrs. J. Chamberlain-Jones, A.S. Johnson, K.R. Jones, Mrs. P.M. Jones, Mrs. D.L. King, Ms. J. McAlpine, B. Mellor, Ms. V. Roberts, A. Rutherford, R. Turner a Miss C.L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

41. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr J. Ball, Mrs. J. Butterfield, Ms. J. Hughes, a Miss S. Roberts.

42. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a **PHENDERFYNWYD** fel y nodir arnynt nawr.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO	
42.1	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 8 Clifton Grove, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Pendyffryn</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs. D.L. King A.J. Rutherford</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2018/1161</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Newidiadau i dŷ annedd ac adeiladu tŷ haf/ystaffell cyfleustodau i wasanaethu'r prif dŷ annedd.</p> <p><u>YMGEISWYR :</u> Mr. a Mrs. Greenhalgh o'r cyfeiriad uchod.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i></p>
42.2	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 8 Kimmel Street, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Bodfor</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Ms J. Hughes Ms J. McAlpine</p>

RHIF Y CAIS: 45/2018/ 1155

DISGRIFIAD: Symud ymaith bwrdd hysbysebu presennol a gosod bwrdd hysbysebu digidol.

YMGEISWYR : Vivid Outdoor Media Limited, Stockport

PENDERFYNIAD: *Dim gwrthwynebiad*

43. YMGYNGHORIAD CYN GWNEUD CAIS – CYFNODAU PELLACH DE-DDWYRAIN Y RHYL

Ymhellach i gofnod rhif 38 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Rhagfyr 2018, dywedodd Clerc y Dref iddo gysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych i ofyn bod swyddogion yn mynychu'r cyfarfod hwn. Ond, oherwydd bod hwn yn ymgynghoriad cyn gwneud cais, nid oeddynt yn ystyried ei bod yn briodol iddynt fynychu.

Atgoffodd Clerc y Dref yr Aelodau o'u pryderon a fynegwyd yn flaenorol mewn perthynas ag effaith y datblygiad ar y rhwydwaith priffyrdd cyffiniol, yn enwedig mewn perthynas â'r B5119 yn benodol yng nghyffordd Pen y Maes a darn "Troeon Dyserth". Cyfeiriodd yr aelodau at gynnydd yn y traffig ar y ffyrdd hyn, a oedd yn eu barn nhw wedi cynyddu'n arwyddocaol ar ôl yr adeiladu a deiliadaeth cyfnodau cynharach y datblygiad hwn. Teimlai'r Aelodau y dylai fod angen i'r datblygwr gynnwys cynigion i ddelio â'r pryderon hyn cyn cychwyn ar unrhyw waith datblygu pellach.

Dywedodd Aelod, mewn perthynas â chyffordd Pen-y-Maes Avenue, bod Swyddogion Priffyrdd y Cyngor Sir yn ymgymryd ag ymarfer ymgynghori ar hyn o bryd gyda thrigolion sy'n cael eu heffeithio gan dagfeydd traffig.

Teimlai'r Aelodau hefyd y dylai'r cais newydd gynnwys darpariaeth ar gyfer manteision cymunedol a chyfleusterau i'w datgan gyda'i gilydd ynghyd ag awgrym clir o ran pryd byddent yn cael ei cyflenwi, a ddylai ddigwydd yn gynnar yn yr amserlen adeiladu.

Nodwyd hefyd y byddai nifer o bobl ar y stad angen mynediad at lwybrau gwasanaeth bws lleol ac y byddai'n fanteisiol pe gellid ystyried hyn fel rhan o'r cynllun yn enwedig o ran darparu arosfannau a llochesi bws.

PENDERFYNWYD *bod Clerc y Dref yn ymateb i'r ymgynghoriad cyn gwneud cais ar y sail canlynol:*

- Bydd y Cyngor Tref angen awgrym clir o fewn y cais o ran y manteision cymunedol arfaethedig yn ymwneud â manau agored a seilwaith, i'w gyflenwi dan y cais.
- Na all y Cyngor gefnogi unrhyw waith adeiladu pellach nes bydd y problemau traffig sy'n effeithio cyffordd B5119 "Pen Y Maes Avenue" a "Throeon Dyserth" wedi eu trin cyn i neb fyw yn y tai newydd.
- Bod y cais yn nodi pryd y bydd y chyfleusterau cymunedol a gytunwyd eisoes yn ymwneud â'r ysgol newydd a'r ganolfan gymunedol yn cael eu cyflenwi.
- Bod y cais yn cynnwys darparu mynediad at lwybrau bws lleol i wasanaethu'r datblygiad.

44. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod:

Dyddiad: